**Hysbysiad Preifatrwydd: ad-daliad costau pleidleisio Cân i Gymru**

Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), cadarnhawn mai S4C yw'r rheolwr data sydd yn gyfrifol am unrhyw ddata personol rydych yn ei rannu drwy'r ffurflen hon. Byddwn yn casglu ac yn prosesu eich data personol pan yr ydych yn rhannu'r wybodaeth a geisir yn y ffurflen.

Byddwn ond yn defnyddio'r data personol yr ydych yn dewis ei rannu drwy'r ffurflen hon at y pwrpas yr ydym yn ei gasglu, sef prosesu, asesu a darparu ad-daliadau i'r rhai sydd yn gymwys.

Mae ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan yn cynnwys mwy o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data (gan gynnwys gwybodaeth am ddiogelwch data, cadw data, a'r sail gyfreithiol i brosesu) a dylech ddarllen y polisi ar y cyd gyda'r hysbysiad yma. Gallwch ddod o hyd i'r polisi yma *https://www.s4c.cymru/cy/y-wefan-hon/page/16717/polisi-preifatrwydd/*.

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon lle mae hyn yn rhesymol angenrheidiol er mwyn prosesu eich cais (e.e. efo'r darparwr pleidleisio ffôn ar gyfer dilysu, a'n darparwr gwasanaethau bancio ar gyfer taliad). Mae'n bosib, oherwydd bod data yn cael ei storio yn y cwmwl, y byddwn yn trosglwyddo a storio eich data y tu allan i'r DU. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn yn ein polisi preifatrwydd.

Am fanylion o eich hawliau o dan gyfreithiau diogelu data, gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'ch data personol yr ydym yn dal a'r hawl i neud cwyn ar unrhyw amser i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rheolydd y DU ar gyfer materion diogelu data (www.ico.org.uk), gweler y polisi preifatrwydd uchod.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r hysbysiad yma neu ein hymarferion diogelu data, cysylltwch â data@s4c.cymru.